

## Gair gan y Golygydd.

Croeso i ail rifyn *Ieithydd Bangor*, cylchgrawn pob deufis i'r bobl hynny sydd â diddordeb mewn ieithyddiaeth a'r iaith Saesneg. Ym mhob rhifyn byddwn yn trin a thrafod amryw o agweddau ar ieithyddiaeth a'r iaith Saesneg, yn edrych ar waith ymchwil sy'n digwydd o'n cwmpas ac yn eich diweddarau am ddigwyddiadau'r adran. Bydd hefyd erthyglau am "ieithyddiaeth boblogaidd", fel adolygiadau o'r cyfryngau, a phosau a chroeseiriâu. Byddwn hefyd yn holi aelodau o staff yr ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg beth maent yn ei feddwl o Fangor, pam eu bod wedi dewis astudio neu ddysgu yma a beth maent yn (gobeithio) ei wneud.

Yn y rhifyn hwn, ceir erthygl ar Ieithyddiaeth y Gymraeg, golwg ar weithgareddau'r gymdeithas dros Galan Gaeaf a'r Nadolig, pwt am y digwyddiadau y gallwch edrych ymlaen atynt a chrosair.

Gobeithio gwnewch chi fwynhau'r rhifyn hwn ac y cewch fudd o'r cynnwys. Os oes gennych unrhyw sylwadau, syniadau, beirniadaeth neu gynigion o help, anfonwch e-bost os gwelwch yn dda at Kathryn Barlow (y golygydd): [linguistics@undeb.bangor.ac.uk](mailto:linguistics@undeb.bangor.ac.uk).

## Adolygiad o "The Linguists"

"Mae hanner ieithoedd y byd ar ddibyn difodiant" yw'r ystadegyn brawychus y mae'r ffilm "The Linguists" yn ymdrin ag ef. Greg Anderson a David Harrison yw "The Linguists", wrth iddynt deithio drwy Siberia, India, a Bolivia yn ceisio eu gorau i gofnodi a dogfennu ieithoedd

yr ardaloedd hynny cyn eu difodiant anffodus ac anochel.


Yr ieithoedd dan sylw yw Chulym a siaredir yn Siberia, Sora o'r India a Kallawaya o Bolivia. Dywedir mai ieithoedd byd-eang megis Rwsieg, Saesneg a Sbaeneg sydd i'w cyfri am ddifodiant yr ieithoedd brodorol, traddodiadol hyn, fel cynifer o ieithoedd eraill sydd mewn perygl.

Nid gorchwyl hawdd oedd cofnodi a dogfennu'r ieithoedd hyn; rhaid oedd teithio milltiroedd i gyrraedd llefydd cymharol anghysbell. Mae poblogaeth y siaradwyr hefyd yn isel iawn ac o ganlyniad yn anodd dod ar eu traws. Gwelir enghraifft o hyn wrth iddynt geisio cael gafael mewn siaradwr Kallawaya; iaith a gysylltir ag iachau meddygol. Mae'r gwaith o chwilio yn rhwystredig a bron â bod yn ofer. Wedi peth amser a llawer o ymdrech, dônt ar draws dyn yr honnir ei fod yn gallu'r iaith; yn anffodus nid oedd hynny'n wir wedi'r cyfan. Diolch i'r drefn, caiff siaradwr Kallawaya ei ganfod yn y diwedd, ac er gwaetha cyrraedd llawer yn hwyrach na'r amser a drefnwyd yn y lle cyntaf, gwnaed recordiad o un o siaradwyr olaf yr iaith yn perfformio un o'r defodau iachau a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.

Ceir un o elfennau mwyaf ingol y ffilm tua'r diwedd wrth i un o siaradwyr Chulym drafod ei berthynas â'r iaith. Mae'n dechrau crio wrth gofio teimlo embaras wrth siarad yr iaith a sut y byddai rhai, a oedd yn siarad Rwsieg yn bennaf, yn edrych i lawr ar siaradwyr yr iaith. Mae hyn yn hoelio'r pwynt fod pob iaith yn cyfri. Mae gan siaradwyr berthynas gyda'u mamiaith, gall sefyllfa ble mae rhywun o gymuned arall yn dweud nad yw eich iaith yn bwysig fod yn brofiad erchyll i lawer o bobl. Mae iaith yn rhan annatod o hunaniaeth unrhyw un, mae tynnu iaith oddi ar rywun bron fel tynnu hunaniaeth rhywun oddi arnynt.

Ar y cyfan, mae'r ffilm hon yn gipolwg gwych ar fyd yr ieithoedd hyn sydd mewn perygl ac yn dangos yr emosiwn a geir dros yr ieithoedd gan y siaradwyr ynghyd â'r gofal a ddangosir gan ieithyddion megis Greg a David. Greg a David yw'r ddau ddelfrydol i gyflwyno'r daith hon gan gynnig golwg hwyliog a diddorol ar y cymunedau mae'r ieithoedd hyn yn perthyn iddynt ac ar yr un pryd yn mynegi'r neges waelodol bod y dydd yn nesáu pan na siaredir yr ieithoedd hyn.

Callum Robson



Poster ffilm "The Linguists"

## Calan Gaeaf gyda Chymdeithas Ieithyddiaeth Bangor.

Roedd hi'n nos Sadwrn oer a diflas, ond ni amharodd hynny ar drefniadau'r Gymdeithas Ieithyddiaeth i ddatlu noson fwyaf arswydus y flwyddyn ym Mangor - Calan Gaeaf. Ymunodd myfyrwyr o bob flwyddyn â ni mewn gwisg

## Gwallgofrwydd Geiriadurol

Pa mor aml fyddwch chi'n agor llyfr gyda'r bwriad o ddarllen dim ond un paragraff, brawddeg neu hyd yn oed un gair? Mae'n siŵr bod yr Oxford English Dictionary yn un o'r llyfrau hynny a ddefnyddir fwyaf ond na chaiff byth ei ddarllen yn iawn. Ond eto mae'n



ffansi - fel gwarchod, cythreuliaid, clowniau, a sawl cymeriad arall.

Cychwynnodd y noson ym Mar Uno a throi'n crôl tafarnau aeth â ni am dro i'r Dafarn Roegaidd, Rascals a'r Dafarn Felen. Aethom ymlaen i Academi a dawnsio tan yr oriau mân. Cafodd pawb a ddaeth noson dda a dywedodd un myfyrwr "bod y noson yn llwyddiant aruthrol a bod pawb wedi cael hwyl" a bod "y niferoedd yn wych gydag amrywiaeth o wynebau a gwisgoedd brawychus".

Ond wrth gwrs nid dyna hi o ran digwyddiadau. Cadwch lygad am fwy o ddigwyddiadau gwych wedi'u trefnu gan Gymdeithas Ieithyddiaeth Bangor.

Kathryn Barlow

portreadu siwrnai hynod ddifyr ein cyndeidiau drwy eu defnydd o eiriau, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Mae'r OED yn gapsiwl amser geiriadurol sy'n gwarchod cynnyrch hanesyddol yr iaith Saesneg. Mae'n rhodd i'w drysori ond anaml y caiff ei brynu fel anrheg.

Daw'r ysbrydoliaeth ar gyfer yr erthygl hon gan un o gasglwyr geiriaduron (lexiconophilist) mwyaf brwdfrydig y byd, Ammon Shea. Cymerodd y gŵr hwn flwyddyn i ddarllen y 21,730 o dudalennau sy'n ffurfio'r OED. Treuliodd 8-10 awr bob dydd (heblaw am ddydd Sadwrn wrth gwrs) yn darllen yr hyn sy'n cyfateb i'r Beibl yn ei gyfanrwydd. Yn ystod y cyfnod hwn fe ail ddarganfu lawer o eiriau prin, anarferol, rhyfeddol a hudolus, (neu efallai y dylaswn i ddweud selcouth), lawer ohonynt

yn hen eiriau anghofiedig erbyn hyn.

Yn ei lyfr, Reading the Oxford English Dictionary, mae Shea yn amlygu rhai o'r geiriau anghyffredin o brydferth a rhyfedd o ddirgrif, ac yn ategu ei weledigaeth unigryw ei hun. Nid yn unig mae'n mynegi ei ddehongliad ei hun o'r geiriau mae'n eu canfod, eu hystyr a'u hanes, ond mae'n dogfennu'r broses hynod o'u ffeindio.

Yn amlwg fe wnaeth ei flwyddyn o gur pen cyson, cymryd nodiadau, llygaid croes a staeniau coffi ddwyn ffrwyth. Gweithiodd Shea fel cerddor stryd ym Mharis, gondolier yn San Diego a symudwr dodrefn yn Efrog Newydd. Erbyn hyn mae'n awdur llwyddiannus. Yn ogystal â'i waith gwreiddiol a digrif ei hun, mae'n ysgrifennu i'r New York Times ac yn cael ei gyflogi gan Wasg Prifysgol Rhydychen fel golygydd ymgynghorol ar Eiriaduron America. Swydd ddelfrydol i gasglwr geiriaduron!

Dyma ychydig o'm ffefrynnau geiriadurol i a ddarganfuwyd yn nyfnderoedd llychlyd cist yr OED.

Impluvios (adj.) Wet with rain.

Apricity (n.) The warmth of the sun in winter.

Compotation (n.) An episode of drinking or carousing together.

Pulveratricos (adj.) Covered with Dust

Ac yn olaf, ond nid lleiaf

Natiform (adj.) Buttock shaped.

Mae gan yr iaith Saesneg eiriau gwirioneddol ddefnyddiol!

Ian Butcher

## Cinio Nadolig y Gymdeithas leithyddiaeth

Gobeithio eich bod i gyd wedi cael Nadolig i'w gofio, a dyma ddy-muno blwyddyn newydd dda i chi i gyd.



Cymdeithas ieithyddiaeth yn y ginio nadolig, Image: Stuart Smith

Cafwyd uchafbwynt cynnar i'n blwyddyn, a gall hynny olygu dim ond un peth – Cinio Nadolig y Gymdeithas Ieithyddiaeth! I'r rhai hynny oedd yn ddigon ffodus i allu dod, dwi'n siŵr y byddech yn cytuno fod pawb wedi mwynhau noson ardderchog. Roedd yn dda gweld myfyrwyr o flynyddoedd un, dau, tri a phedwar ynghyd ag aelodau o'r staff yn mwynhau'r noson ac yn cymdeithasu dros wydraid o win neu ddau!

Eleni penderfynom roi cynnig ar leoliad newydd, Y Ganolfan Rheolaeth, ac yn wir fe brofodd yn benderfyniad da. Fe wnaethom i gyd fwynhau pryd tri chwrs oedd yn cynnwys twrci gyda'r trimins i gyd - dechrau da i ddathliadau'r ŵyl.

Gwnaed y noson yn fwy cofiadwy gan y gwesteion arbennig a'r wynebau cyfarwydd nad oeddem wedi'u gweld ym Mangor ers peth amser. Roeddem wrth ein boddau

ynghwmni Zara Erliz a Megan Milton (y ddwy'n gyn-fyfyrwyr Ieithyddiaeth) a oedd wedi gwneud yr ymdrech i ddod i dreulio noson gyda'r Gymdeithas, a hefyd dau westai arbennig iawn arall; David

a Hilary Crystal. Roedd y ddau wedi mwynhau'n arw ac yn falch iawn o'r gwahoddiad, roedd yn gyfle gwyh i siarad â DC ac fe wnaeth hyd yn oed addo ychydig o lyfrau ar gyfer Llyfrgell y Gymdeithas Ieithyddiaeth!

Yn ystod y noson cafwyd raffl lewyrchus gyda gwobrau da iawn ac ychydig o areithiau yn cynnwys adloniant gan David Crystal. Yn dilyn hynny, parhaodd rhai ohonom i ddathlu yn y Dafarn Roegaidd cyn mynd ymlaen i glwb nos y myfyrwyr, Academi ac fe wnaeth sawl ieithydd arddangos symudiadau dawns diddorol iawn, ond wnawn ni ddim enwi neb!

Ar y cyfan roedd y noson yn llwyddiant ysgubol ac ni fyddai hyn wedi digwydd oni bai am gefnogaeth barhaus aelodau BLS ac yn arbennig Jo Sutton, ein hysgrifennydd cymdeithasol; mae ei ymroddiad a'i waith yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ystod y semester hwn.

Stuart Smith

## Mae'r modiwl newydd yn fendigedig!

Modiwl newydd ar gyfer y drydedd flwyddyn yw Ieithyddiaeth y Gymraeg, ac mae'n ymddangos ei fod wedi gwfreiddio a hudo'r dosbarth. Dyma newydd da a phositif i'r Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg ym Mangor. Dr Peredur Davies, Cymrawd Dysgu Cyfrwng Gymraeg yr ysgol sydd wedi bod wrth y llyw ac mae'n sicr wedi profi ei werth. Mae ei allu i addysgu, ei wybodaeth eang a'i angerdd dros Gymru a'r iaith Gymraeg yn gynhwysion perffaith i sicrhau llwyddiant y modiwl.

Mae'r modiwl yn canolbwyntio ar wahanol nodweddion yr iaith Gymraeg mewn perthynas â gwahanol agweddau a meysydd ieithyddiaeth, felly synau a chystrawen y Gymraeg, agweddau tuag at yr iaith a hyd yn oed dirgelwch y treigliadau! Trwy waith grŵp positif yn dilyn o'r darlithiau, mae llawer o drin a thrafod wedi bod ar y materion uchod a rhai eraill yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. A hyn oll dan sylw, mae llawer wedi cael ei ddysgu.

I roi blas i chi ar fwynhad y dosbarth, dyma sylwadau gan rai o'r myfyrwyr, "Modiwl sydd wedi aildeffro fy synnwyr o hunaniaeth Gymreig", "Agor drysau i ymchwiliad personol pellach i'r iaith Gymraeg, y diwylliant a'r bobl." (Simon Collier) "Dewis ysbrydoledig, mae'r modiwl wedi cynnig elfen anhepgor i fy ngradd Ieithyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor. Gyda chyfoeth o bosibiliadau ymchwil ar ein stepen drws, mae'n biti nad yw'r modiwl wedi cael ei gynnig yn gynharach. Fodd

bynag, bydd gorfod disgwyl am y modiwl yn siŵr o fod yn fachyn i ddenu'r don nesaf o leithyddion sydd ag awch dros y Gymraeg” (Abigail Price)

Mae'n rhaid cydnabod gwaith pawb sydd wedi ymwneud â'r modiwl er mwyn sicrhau profiad pleserus ac unigryw. Yn bendant, mae'n beth da gweld myfyrwyr yn cymryd cymaint o ddiddordeb yn yr iaith Gymraeg. Gobeithio y bydd y modiwl yn parhau am flynyddoedd i ddod!

Callum Robson

### Linguistic Crossword

This is the second instalment of the wonderful crosswords – this time one for you second years to delve into. If not all of the questions feel familiar to you have no fear, as we've used a selection of terms from all of the second year modules.

#### ACROSS

1. What do we call multiple mean-

ings? (9)

4. A figure of speech that usually consists of a play on words? (5)

6. What do we call a preconceptual framework? (11)

9. Single meaning (8)

10. What does Fauconnier say can “proliferate when we think and talk”? (12)

11. What do we call the traditional meaning of a word? (10)

#### DOWN

1. Consonants can also be known as...? (8)

2. If we understand one thing in terms of another we are using? (19)

3. A waveform that doesn't repeat along the time axis Postalveolar: when pronouncing a sound that uses the tongue tip/blade? (14)

5. If we substitute part of something for a whole what device are we using? (8)

7. If a definition gives us more than just the traditional meaning it is? (13)

8. When a speaker utters a sen-

tence and they use two languages within or between sentences? (13)

Answers from issue one:

Across 1.Morphology 4.Bound 5.Grammar 6 Indefinite 8 Phoneme 9 Lexis 11 Syntax 12. Universal 13. Symbol

Down 1.Morpheme 2.Open 3.Noun 7. Function 10.Semantics

Matt Jackson

### David Crystal

By now some of you will have heard that Professor David Crystal will be in Bangor on the 15th February to give a series of lectures, further details of the day will be available in the near future and these lectures were, last year, thoroughly enjoyable.


Alun Derwydd-Jones

### Departmental Hoodies

For those of you who ordered a BLS hoodie they are now available from the BLS office. We had a great response from you and have ordered over 40 hoodies this year.

The office is open Monday to Friday between 11am and 3pm so you can collect your hoodie.

Matt Jackson



## Digwyddiadau i ddod

- Chw 7 Kepa Erdozia (Bilingualism)  
ELEBILAB ‘Placing heads in phrases: when bilingual parameters clash’
- Chw 7 Dr Enlli Thomas (Education, Bangor)  
“Acquiring complex structures under conditions of minimal exposure: bilingual acquisition of plural morphology in Welsh” 4pm Venue: 325
- Chw 13 Gwerfyl Roberts (Bilingualism), Bangor,  
‘Enhancing rigour in the validation of Patient Reported Outcome Measures (PROMs)’
- Chw 15 Prof. David Crystal, Bangor University  
By hook or by crook: A journey in search of English (2:15pm)  
Exploring Shakespeare’s language (4:00pm)
- Chw 20 Bonnie Schwartz (Bilingualism), Radboud Universiteit Nijmegen
- Chw 21 Dr Marco Tamburelli (Linguistics, Bangor)  
Title: Linguistics as a Science, Venue: 325 4pm
- Chw 27 Alex Riemersma (Bilingualism)  
Mercator Research Centre on Multilingualism and Language Learning
- Maw 5 Bastien Boutonnet (Bilingualism), Bangor,  
‘The Beauty and the Beast effect: Unconscious retrieval of grammatical gender during semantic decision on objects’
- Maw 6 Prof Guillaume Thierry (Psychology, Bangor)  
“An electrifying approach to language: Event-related brain potentials”, Venue: 325 4pm
- Maw 7 Dr. Eirini Sanoudaki, Bangor University  
The pronoun interpretation question(s): answers across tasks and populations
- Maw 12 Johanneke Caspers (Bilingualism), Leiden University
- Maw 19 Ros Temple (Bilingualism), University of Oxford
- Maw 21 Dr. Marija Omazic, Osijek University  
Phraseology and Cognitive Linguistics: Mechanisms and constraints on idiom creation and modification.
- Maw 20 Prof Ineke Mennen (Linguistics, Bangor)  
Title: Intonational Foreign Accent, Venue: 325 4pm
- Maw 26 Marilyn Martin-Jones (Bilingualism), University of Birmingham

## Cadwch mewn cysylltiad

Mae gennym wefan newydd: <http://bangorlinguists.org>.

Rydym hefyd yn awr ar Facebook (tudalen newydd!) ac ar Twitter:

<http://on.fb.me/BangorLinguists>.

<http://bit.ly/CIBtweet> (Cymraeg)

<http://bit.ly/BLStweet> (English)

Mae yna grwpiau blwyddyn ar Facebook, o’r enw “Linguistics & English Language ‘XX’”, lle mae “XX” yn cyfeirio at y flwyddyn graddio (e.e. ’12 ar gyfer myfyrwyr y drydedd flwyddyn eleni). Gwnewch yn siŵr o ymuno!

## Cyfranwyr

*Prif Olygydd*

Kathryn Barlow

*Bwrdd Golygyddol*

Florian Breit

Harry Jansen

Matt Jackson

*Cyfranwyr*

Alun Derwydd-Jones

Callum Robson

Ian Butcher

Stuart Smith

